YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

Tymor y Hydref 2023


Dosbarth y Gragen

# Bant â ni i gynllunio!

**Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw tanio'r dychymyg trwy archwilio byd yr arwyr dychmygol ac arwyr go-iawn. Anelwn at ddatblygu dysgwyr hyderus a chreadigol a fydd yn medru cyfathrebu'n effeithiol er mwyn rhannu eu syniadau a chyflwyno gwybodaeth. Ein nod yw datblygu unigolion iach sy'n deall effaith eu penderfyniadau a'u gweithredoedd arnynt eu hunain ac ar eraill. Bwriadwn feithrin disgyblion a fydd yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniad a chyfrifoldebau eraill yn y gymuned. Erbyn diwedd yr uned ddysgu, hyderwn y bydd y disgyblion wedi eu hysbrydoli i fod yn ddinasyddion egwyddorol, ac yn barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn cymdeithas nawr ac yn y dyfodol.**

Ydyn ni'n arwyr? Allwn ni fod yn arwyr?
Pawb

Trafod pwy yw ein arwyr ni.
Zia




Ydy'r heddlu yn gallu dod mewn?
Pawb

Dysgu am yr arwyr o'n cwmpas.
Toby, Noah, Cadi

Allwn ni wisgo fel arwyr?
Oscar

Ym mha ffordd gall arwyr helpu pobl?
Alys

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor y Hydref 2023

## Dosbarth y Gragen

**Ydy pob arwr yn gwisgo clogyn? Profwch hyn!**

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

### Y Celfyddydau Mynegiannol

- Astudio delweddau o archarwyr.
- Darlunio archarwyr dychmygol.
- Gwrando ar gerddoriaeth sy'n cael ei ddefnyddio i bortreadu archarwyr mewn cartwnau neu ffilmiau.
- Defnyddio'r holl sgiliau rydyn wedi dysgu i greu

### Iechyd a Lles

- Dysgu am bwysigrwydd diet cytbwys a bwyta'n iach.
- Trafod gwneud dewisiadau cywir ac anghywir.
- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.
- Trafod gyrfaoedd a herio stereoteipiau.

### Y Dyniaethau

- Trafod sut mae archarwyr wedi newid dros y blynyddoedd a dysgu am Superted, yr archarwr Cymraeg cyntaf.
- Trafod pwy sy'n arwyr i ni yn ein bywydau bob dydd.
- Dysgu am arwyr o Gymru.
- Dysgu am waith arwyr yn ein cymuned.
- Dysgu am draddodiadau Nadolig a pham fod y Nadolig yn bwysig i

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Defnyddio ystod o offer cyfrifiadurol yn ddiogel.
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy a sgiliau codio syml.
- Cynnal ymchwiliadau i effaith ymarfer corff ar ein cyrff.
- Dylunio, creu a gwerthuso addurn Nadolig.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu trwy gyfrif Hwb eich plentyn. Gweler cyfarwyddiadau ar dudalen dosbarth ar wefan yr ysgol.

Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Creu cornel chwarae rôl 'Ffau'r Archarwyr' a mwynhau anturiaethau o bob math!
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a barddoniaeth.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau ffoneg a darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan ganolbwyntio ar ysgrifennu **disgrifiadau, stribedi comic syml a chyflwyno gwybodaeth.**
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn

### Mathemateg a Rhifedd

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd a lluosi.
- Defnyddio arian, ymarfer ein sgiliau mesur, astudio siap a datblygu ein sgiliau datrys problem a rhesymu.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.
- Casglu data a'i gyflwyno.